

Adroddiad blynyddol

2019-2020





Antur Waunfawr

Prif swyddfa:

Bryn Pistyll | Waunfawr | Caernarfon

Gwynedd | LL55 4BJ

www.anturwaunfawr.cymru

Ffôn: 01286 650721

E-bost: swyddfa@anturwaunfawr.cymru

Rhif elusen: 515445

Rhif cwmni: 1832813



Gair gan y brif-weithredwraig

Cyn i'r Covid19 daro ddiwedd fis Mawrth, 2020 roedd wedi bod yn flwyddyn gynhyrchol a sefydlog i Antur Waunfawr. Llwyddwyd i gynnig fwy o wasanaethau ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu ac yn sgil hynny penodwyd fwy o staff i'w cefnogi. Yn ogystal bu'n flwyddyn gynhyrchol o ran ein buddsoddiadau gyda gwaith yn cychwyn ar Safle Porth yr Aur, a phrosiect y Sied Werdd yng Nghibyn yn derbyn cefnogaeth. Sefydlwyd partneriaethau newydd hefyd ac er gwaethaf y tarfu a fu diwedd y flwyddyn, mae'r rhagolygon tymor hir i'r Antur yn llewyrchus.

Menna Jones



Gobeithiaf yn fawr y cewch flas ar ddarllen yr Adroddiad Blynnyddol yma sy'n crynhoi prif lwyddiannau ein digwyddiadau a phrosiectau ar hyd y flwyddyn. Blaenoriaethwyd iechyd a llesiant a gwaith y 3 busnes gwyrdd, ond cafwyd digon o hwyl a mwynhad. ' Rydym yn hynod falch o ymdrech ac ymroddiad pawb yn yr Antur ac mae llwyddiant y fenter yn perthyn i bawb. Edrychwn ymlaen tuag at 2020 yn hyderus gyda'r nod o gyflawni yr un safon uchel o wasanaeth, darparu profiadau a chyfleoedd ychwanegol i'r gweithlu presennol, ond byddwn hefyd yn ymestyn croeso i bobl newydd.

Cynnwys

3	Gair gan y brif-weithredwraig
4	Nod ac amcanion
5	Datganiad Llesiant
6	Safleoedd Antur Waunfawr
7	Safle Bryn Pistyll
8	Warws Werdd a Chaergylchu
9	Beics Antur a'r Lloft Llesiant
10	Sied Werdd
11	Iechyd a Llesiant
12	Hyfforddiant a datblygiad
13	Marchnata
14	Aelodau'r bwrdd a thîm rheoli

Nod ac Amcanion

PARCH

Rydym yn dangos parch tuag at unigolion ag anableddau dysgu, staff, y cyhoedd, y gymuned a'n diwylliant bob tro. Mynegwn empathi gyda'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth er mwyn deall a diwallu eu hanghenion.

LLESANT

Er mwyn cyfarch hapusrwydd a llesiant rydym yn darparu dewis eang o weithgareddau a gwasanaethau gyda'r unigolyn yn ganolog.

CYNALIADWY

Gweithredwn yn gynaliadwy - yn gymunedol, amgylcheddol ac yn ariannol er mwyn cynnal diwylliant, iaith, cymuned ac amgylchedd ffyniannus.

GRYMUSO

Datblygu'r unigolyn a'r gymuned i'w llawn potensial yw arwyddair yr Antur ac anelwn i rymuso'r economi leol a gwarchod yr amgylchedd hefyd.

PROFFESIYNOL

Arweinir a rheolir y mudiad yn effeithiol gan Fwrdd a swyddogion profiadol gydag agwedd entrepreneuraidd i gyflawni gwasanaethau o safon.

- Darparu gwaith a gweithgaredd ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd gefnogol i unigolion ag anableddau a'r difreintiedig.
- Darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r unigolion i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid.
- Darparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ail-ddefnyddio ac ail-gylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrff statudol a phreifat.
- Datblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar fel rhan o gynlluniau yr unigolion, a rhaeadr'u broses trwy weithgaredd/gwaith yr Antur.
- Hyrwyddo integreiddio a byw'n iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant ac hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion yr unigolion.
- Darparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd.
- Datblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach a gwarchod yr amgylchedd.
- Creu canolbwynt newydd llesiant a hwb i'n busnes beicio ym Mhorth yr Aur, Caernarfon.
- Bod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

Datganiad Llesiant

Hyrwyddo llesiant, iechyd
da ac hapusrwydd, a
galluogi unigolion fydd
conglfeini gwasanaethau
Antur Waunfawr i'r dyfodol.



Darperir gofal, cefnogaeth
weithgar, hyfforddiant a gwaith
ystyrlon mewn modd effeithlon
a chymesur i ateb gofynion pobl
ag anableddau dysgu a phobl
ddifreintiedig yn lleol.




Fel menter gymdeithasol bydd Antur
Waunfawr yn cyfarch anghenion
cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd
a diwylliannol y gymuned leol – a hynny
trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr
unigolyn, ac mewn partneriaeth.



Ein nod yw creu cymdeithas
arloesol, gyfartal, gynhyrchiol
a charbon isel trwy feithrin
teulu o fusnesau cynaliadwy yn
lleol - cychwyn wrth ein traed
a gweithredu'n uchelgeisiol i
sicrhau llesiant a chymunedau
gwydn.

Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol (Cymru)
2014



Safleoedd a phrosiectau

100+

Nifer o staff mae
Antur Waunfawr yn
cyflogi.

70+

Nifer o unigolion mae
Antur Waunfawr yn
cefnogi.

CAERGYLCHU
(CAERNARFON)

CANOLFAN AILGYLCHU
LLARPIO
CYFRINACHOL

WARWS WERDD
(CAERNARFON)
SIOP DDODREFN
AIL-LAW
DILLAD DEL
GWEITHDY

BEICS ANTUR
(CAERNARFON)
BEICS ADDASEDIG
LLOGI BEICS A SIOP
TRWSIO BEICS

BRYN PISTYLL
(WAUNFAWR)
PRIF SWYDDFA
CAFFI BLAS Y WAUN
SIOP GREFFTAU
YR ARDD LYSIAU
CAE CHWARAE
CYNLLUN CARTREFI
AML-OFYNION

SAFLE BRYN PISTYLL

Mae'r ardd lysiau
a'r twnel polythen yn
parhau i dyfu llysiau
a ffrwythau drwy
gydol y flwyddyn
ar gyfer defnydd y
caffi a'r tai.



Yn ystod y tymor
Nadolig, bu
gwerthiant da ar
y torchau a wnaed
gan ddefnyddio
amrywiaeth o
frigau a dail ar y
safle.



Gwelwyd cynnydd
sylweddol yn y galw
wasanaeth amlofnion;
darparwyd
gwasanaeth ar gyfer
3 unigolyn newydd
yn ystod y flwyddyn.

Unwaith eto eleni,
cafwyd Apêl Afalau
llwyddiannus a
gwerthwyd allan
o seidr yng Ngwyl
Fwyd Caernarfon!
Byddwn yn edrych i
gynyddu ein
capasiti i fragu mwy
i ymateb i'r galw.



Mae'r unigolion
wedi bod yn derbyn
sesiynau 'touch
trust' drwy Grŵp
Llandrillo.



Pryd ar glud

Yn ddiweddarach
yn y flwyddyn wrth i
COVID-19 gael gafael,
rydym wedi dechrau
cynnig prydau bwyd
cynnes ar gyfer
trigolion y pentref
sydd yn ynysu, ac yn
gobeithio ymestyn y
gwasanaeth yma yn
barhaol.

Datblygu hygyrchedd

Rydym yn edrych i
ddatblygu adnoddau
a hygyrchedd y safle
trwy wneud man
parcio addas i'r bws
mini a thrawsnewid un
o'r caeau anwastad
sydd heb ddefnydd ar
hyn o bryd yn ofod ar
gyfer gweithgareddau
iechyd a llesiant awyr
agored.



WARWS WERDD

Mae'r Warws yn adeilad pwrpasol ar gyfer ail-ddefnyddio ac ailgylchu dodrefn.

40

Y nifer o dunellau o ddodrefn â ddargyfeiriwyd o'r safleoedd tirlenwi.

149

Y nifer o dunellau o ddillad â boreswyd, wedi'u gasglu o banciau a binau lleol.

68

Nifer o ysgolion a sefydliadau rydym ni'n cydweithio efo fel rhan o'n Prosiect Dillad.

CAERGYLCHU

Partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, sy'n ganolfan adennill deunyddiau, ac yn gartref i wasanaeth llarpio cyfrinachol Llarpio Antur.

15k

Nifer o sachau papur gwastraff sydd wedi'u trin a'u hailgylchu yn ystod y flwyddyn.

1383

Nifer o dunellau o blastig, papur a chetris â gasglwyd ac ailgylchwyd.

11

Nifer o unigolion ag anableddau dysgu sy'n cael eu cefnogi yng Nghaergyglchu.

BEICS ANTUR A'R LLOFT LLESIANT

PORTH YR AUR

Prynwyd safle Porth yr Aur ar Stryd Fawr Caernarfon ym mis Rhagfyr 2017, fel lleoliad parhaol i Beics Antur ac i gynyddu troedle'r siop hurio a'r gweithdy, ac hefyd gyda'r bwriad o'i ddatblygu yn adnodd iechyd a llesiant ar gyfer unigolion Antur Waunfawr a'r gymuned ehangach.

Yn dilyn penodi penseiri Donald Insall Associates yn Ionawr 2019 i arwain y Tîm Dylunio, cychwynnodd y gwaith dylunio ar unwaith.

Bydd yr adeilad yn mesur 300m², gydag ail lawr 105m². Bydd yn gwbl hygyrch ac wedi ei ddylunio gan ystyried anghenion amrywiaeth eang o unigolion. Bydd y llawr gwaelod yn cynnwys derbynfa a siop hurio beics a beics addasedig, gweithdy ar gyfer trwsio a gwasanaethu, yn ogystal â tholed hygyrch, swyddfa a chegin fechan. Bydd lifft i'r llawr cyntaf, fydd yn cynnwys Llofft Llesiant – stiwdio aml bwrpas ar gyfer pob math o weithgareddau iechyd a llesiant, ac ystafell synhwyrau unigryw.

Yn mis Rhagfyr 2019, yn dilyn proses dendr dan arweiniad y penseiri, penodwyd cwmni MPH ar gyfer y cytundeb adeiladu. Cychwynnodd y gwaith ar y safle ar y 13eg o Ionawr, 2020 gyda rhaglen waith wreiddiol o 23 wythnos. Yn sgil COVID-19, daeth y gwaith i stop am gyfnod ar y 25ain o Fawrth, 2020, ac felly gydag effaith ar y rhaglen waith. Ein gobaith erbyn hyn ydi i'r adeilad fod yn barod erbyn Tachwedd 2020.

Casglwyd £640
drwy ymgyrch
'Crowdfunder'
tuag at y Lloft
Llesiant

Prosiect gwerth £1 miliwn.
Sicrhawyd gwerth £500k o grantiau gan:
• Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol, Llywodraeth Cymru
• Cronfa Tyfu Busnes Cymdeithasol CGGC
• Cronfa Treftadaeth Bensaerniol
• Cronfa Gofal Integredig (ICF) Cyfalaf
• Garfield Weston Foundation


SIED WERDD

Derbyniwyd grant o £300,000 gan Llywodraeth Cymru i ddatblygu Sied Werdd mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd er mwyn gwella isadeiledd a chynyddu tunelledd ailgylchu ac ailddefnyddio'r sir. Yn dilyn proses dendr, penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer y gwaith dylunio a rheoli prosiect, ac mae'r gwaith datblygu wedi bod yn dod yn ei flaen.

Bydd y sied 360m², gydag ail lawr 260m², yn cael ei hadeiladu ar dir sydd yn eiddo i'r Antur, tu ôl i'r Warws Werdd yng Nghibyn.

Bydd y llawr gwaelod yn cynnwys gweithdy gyda meinciau addasedig sydd yn codi i fyny ac i lawr ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, a pheiriannau ysgafn ar gyfer unigolion gyda gwendid yn eu cyhyrau. Bydd y llawr cyntaf wedi ei rannu i 3 neu 4 uned, gyda gofodau hyblyg ar gyfer prosiectau ailgylchu ac ailddefnyddio. Gall hwn hefyd fod yn ofod addysgiadol ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion. Bydd yr adeilad yn hygyrch, gyda lifft a chyfleusterau cymorth, ac wedi ei ddylunio gan ystyried amrywiaeth eang o anghenion arbennig.

Dros y misoedd nesaf bydd yr Antur yn ymgynghori gydag unigolion sydd ar y sbectrwm awtistig, teuluoedd ac arbenigwyr er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyfarch anghenion unigolion ar y sbectrwm ynghyd â datblygu cyfleoedd gwaith addas yn y Sied Werdd.



Iechyd a Llesiant

Mae iechyd a llesiant yn ganolog i holl waith yr Antur erbyn hyn. Yn ychwanegol i waith dyddiol, cynhaliwyd gweithgareddau megis:

- Taith gerdded o Fangor i Moelyci
- 2 ddiwrnod chwaraeon ar y cyd efo Coleg Menai
- Taith natur yng Nghaernarfon
- Hel sbwriel yn Ninas Dinlle



Eisteddfod Llanrwst

Cafodd unigolion Antur Waunfawr gyfle i berfformio ar lwyfan Eisteddfod Sir Conwy yn Llanrwst; mi roedd yn brofiad gwych, ac roeddent i gyd wedi mwynhau cael perfformio o flaen cynulleidfa.



Dathlu 35 Mlynedd Antur Waunfawr

Roedd hi'n flwyddyn arbennig i Antur Waunfawr, yn dathlu 35 mlynedd. I nodi'r achlysur, trefnwyd cyngerdd arbennig yn Galeri Caernarfon gyda pherfformiad gan Gruff Rhys. Perfformiodd unigolion Antur Waunfawr ar y llwyfan yn gyntaf gyda Annette Bryn Parri yn cyfeilio, a chawsant gymeradwyaeth enfawr gan y gynulleidfa. Roedd y gig wedi gwerthu allan, gyda'r holl arian focynnau a godwyd yn mynd tuag at ein prosiect llesiant Porth yr Aur. Yn ystod y dydd, cyn y cyngerdd, cynhaliwyd Gŵyl Haf arbennig, gyda cherddoriaeth, bwyd a diod, cynnyrch ar werth ac adloniant.



Hyfforddiant a datblygiad

Mae gan yr Antur raglen Hyfforddiant a Datblygiad cynhwysfawr sydd yn ateb gofynion ein gwasanaethau ar gyfer oedolion bregus. Mae'r prif hyfforddiant statudol yn cynnwys:

- Diogelu Lefel 2 a 3
- Cyrsiau meddyginiaeth
- NVQ 2, 3 a 5 mewn Gofal
- 'Dementia Jewel'
- Cefnogaeth Ymddygiad
- Cymorth Cyntaf
- Ymwybyddiaeth Awtistiaeth
- Hylendid Bwyd Level 2 a 3
- Hyfforddiant arwain a rheoli



Yn ogystal a'r hyfforddiant yma, darparwyd hyfforddiant lechyd a Llesiant i holl staff yr Antur gan gwmni RCS – Cymru sydd yn darparu cefnogaeth i gyflogwyr a staff ar draws doriad o faterion lechyd a Lles. Roedd y sesiynau yma yn canolbwyntio yn benodol ar lechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau.

Partneriaid

Parhawyd i gydweithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn.

Mae ein partneriaid yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon
- Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor
- Prifysgol Bangor
- Chwaraeon Anabledd Cymru
- Age Cymru Gwynedd a Môn ... a mwy

Rydym hefyd yn rhan o Brosiect KESS Prifysgol Bangor gyda myfyrwraig PhD ar waith ymchwil ar Raglenni Gwaith Cynllun Gweithgar. Yn sgil y prosiect yma cynhaliwyd Cynhadledd Cefnogaeth Weithgar ar y cyd hefo Prifysgol Bangor, Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon. Cyflwynwyd ein gweithgareddau iechyd a llesiant a'r fyd gwaith yn yr Antur gan Siân Williams a Dewi Jones, Is-reolwyr lechyd a Llesiant; roedd yr adborth ar y diwrnod yn gadarnhaol iawn.

Llwyddwyd i gynnal yr Archrediad ISO 14001 a'r Archrediad ISO 9001 unwaith eto eleni. Ein gobaith yw y bydd gweithredu ar y broses a'r sustemau cysylltiedig yn fuddiol wrth ymgeisio am gytundebau a thendrau.

Marchnata a digwyddiadau

Cynhaliwyd Diwrnod Agored Antur Waunfawr i rieni, gofawyr ac unigolion, ar y cyd efo Gŵyl Fwyd Caernarfon



Cafwyd canmoliaeth uchel am y wobwr Ymddiriedolwyr Rhagorol yng Ngwobrau Elusennau Cymru a gynhaliwyd gan CGGC, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd



11,347

o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynnydd o 2681 ers 2018-2019



Croesawyd dysgwyr Nant Gwrtheyrn i'r Antur, a hefyd mynychwyd Ffair Nadolig Nant Gwrtheyrn i werthu'n cynnyrch

Cydweithio efo'r Clwb Ieuentid

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae cyd-weithio wedi digwydd rhwng Antur Waunfawr, yr Heddlu a Gwasanaethau Ieuentid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref. Agorwyd y Caffi ar nos Iau, gan wahodd y bobl ifanc leol i ddechrau clwb ieuentid; mi roedd yn llwyddiant mawr, a cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar y cyd i gasglu arian, yn cynnwys eu presenoldeb yn ein Gŵyl Haf, nosweithiau megis cerffio pwmpen, noson goleuo'r goeden Nadolig yn y pentref a sawl digwyddiad eraill.





Aelodau'r Bwrdd

Mr. Rhys Evans	Cadeirydd (Medi 2019)
Mr. Huw Ynyr	Is-gadeirydd (Medi 2019)
Mr. Kevin Hughes	Trysorydd
Mr. Geraint Strello	Aelod
Mr. Norman Williams	Aelod
Mr. Daron Harris	Aelod
Dr. John Prys Morgan Jones	Aelod
Mrs. Sara Mair Tomos	Aelod
Mrs. Anna Ll Williams	Aelod
Mrs. Lowri Huws Jones	Aelod
Mr. John Gwynedd Jones	Aelod
Miss. Gwen Tomos	Aelod (Mai 2019)
Ms. Menna Jones	Ysgrifenyddes

Y Tîm Rheoli

Menna Jones	Prif-Weithredwraig
Stephen Goodwin	Uwch Reolwr Gwasanaethau
	Dydd a Phreswyl
Ellen Thirsk	Uwch Reolwraig Adnoddau
	Dynol
Haydn Jones	Uwch Reolwr 3 Busnes Gwyrdd
Sioned Hughes	Rheolwraig Cyllid
Gwenlli Mai Wynne	Rheolwraig Datblygu Busnes
Elain Hughes	Rheolwraig Datblygu Busnes